

**Haf  
Summer  
2025**



**CANOLFAN Y CELFYDDYDAU  
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE**



**“Profiad gwych  
- rydym yn ffodus  
iawn o’r ganolfan yn  
Aberystwyth”**

**“I always enjoy  
visiting the Arts  
Centre, it’s a  
highlight in our lives”**

## Swper cyn sioe | Pre show Supper

Edrychwch allan am y symbol hwn! Swper cyn y sioe ar gael, e-bostiwrch artscafe@aber.ac.uk i gadw eich lle. Gosodir bwydleni ar-lein cyn y digwyddiad.

Look out for this symbol! Pre-show Supper available, email artscafe@aber.ac.uk to reserve your space. Menus to be released online prior to the event.



## Barod am Amser da?

Mae croeso Cymreig i bawb yng Nghanolfan y Celfyddydau. O ddigwyddiadau byw i un o siopau gorau'r dref. O wersi amrywiol i'r dosbarth ioga. O'r sinema i'r arddangosfeydd celf. O'r caffi â'r olygfa o'r môr. Dyma'r lle am amser da yn Aberystwyth.

## Ready for some Time well spent?

There's a Welsh welcome for everyone at the Arts Centre. From live events to one of the best shops in town. From a variety of classes to our yoga sessions. From the comfy cinema to the art exhibitions, and the Cafe with amazing views. We're the place for time well spent in Aberystwyth.

**CANOLFAN Y CELFYDDYDAU  
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE**



## Cynnwys Contents

- 3 Perfformiadau Byw | Live Performances
- 10 Gwyliau | Festivals
- 12 The Wizard of Oz
- 14 Cyn bo hir | Coming Soon
- 16 Sgrinio byw | Sinema | Live Screenings | Cinema
- 18 Arddangosfeydd | Exhibitions
- 25 Dysgu Creadigol | Creative Learning
- 28 Cyrsiau Wythnosol | Weekly Classes
- 32 Bwyd a Diod | Food and Drink Siop | Shop
- 34 Gwybodaeth | Information
- 41 Dyddiadur Digwyddiadau Byw | Live Events Diary

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE LOWER YOUTH THEATRE

## The Addams Family

2 Mai/May 7pm  
3 Mai/May 2pm + 7pm

Tyfodd Wednesday Addams i fyny yn y teulu mwyaf ecsentrig yn y dref. Ond mae popeth ar fin newid oherwydd mae Tywysoges eithaf y Tywyllwch wedi syrthio mewn cariad gyda dyn ifanc craff, hoffus o deulu parchus.

Ymunwch â ni ar y noson dyngedfennol hon, pan mae cariad 'normal' Wednesday a'i deulu yn cael eu gwahodd i ginio.

Wednesday Addams, grew up in the kookiest family in town. But everything is about to change because the ultimate Princess of Darkness has fallen in love with a sweet, smart young man from a respectable family.

Join us on this fateful night, when Wednesday's 'normal' boyfriend and his family are invited for dinner.

£16.50 - £14.50 | oed/age 6+

60 munud egwyl 20 munud / 60 min 20 min interval

Teulu | Family



THEATR IOLO

## Babi, Aderyn a Gwenynen / Baby, Bird and Bee

9 Mai/May 11am, 1pm + 2:30pm

Dewch i ymlacio gyda'ch babi tra bod y garddwr yn brysur wrth ei waith yn plannu hadau ac yn dyfrio'r ardd brydferth. Yn fuan bydd aderyn, gwenynen ac wrth gwrs y babanod yn gwmni hyfryd i'r garddwr hapus. Gyda'ch gilydd byddwch yn darganfod golygfeydd a synau'r ardd a bydd eich rhai bychain wrth eu boddau! Perfformir Baby, Bird & Bee yn Saesneg a pherfformir Babi, Aderyn a'r Wenynen yn Gymraeg.

Come and sit with your baby whilst the new gardener playfully goes about their work, planting and watering, in the beautiful garden. As they work, they are delighted to be joined by a bird, a bee, and of course, the babies! Together you will discover the sights and sounds of the garden, as your little one delights in the wonders around them.



£15 - £5 | 6-12 mis/months

20 munud / 20 munud chwarae | 20 min / 20 min play

Teulu | Family



## Milkshake! Live on Holiday

10 Mai/May 3:30pm

Ymunwch â'ch hoff ffrindiau Milkshake! ar wyliau gyda Smurfette, Dora, Pip a Posey, Blue o Blues Clues, Milo, Milkshake Monkey a chyflwynydd Milkshake! ar gyfer anturiaeth unigryw!

Paciwch eich bagiau a neidiwch ar drên Milkshake! wrth i ni fynd ar wyliau llawn canu a dawnsio gyda'n gilydd! Dyma sioe deulu na ddylid ei methu.

Join your favourite Milkshake! friends on Holiday with Smurfette, Dora, Pip and Posy, Blue from Blues Clues and You!, Milo, Milkshake! Monkey plus a Milkshake! presenter for an all-new adventure!

Pack your bags and jump aboard the Milkshake! train as we go on an all singing, all dancing holiday together! It's a family show not to be missed.

**£19, £18, Tocyn teulu/family ticket £64 | Oed/age 3+ | 60 munud/minutes**

**Teulu | Family**

## Kroke

15 Mai/May 7.30pm

Mae triawd mwyaf cloddiw Gwlad Pwyl wedi datblygu arddull hollol unigryw, cymysgedd coeth o gerddoriaeth Bwylaidd fodern, klezmer, jas cyfoes a cherddoriaeth glasurol siambr, sydd wedi swyno cynulleidfaoedd ledled y byd.

Cyflwynir gan Theatr Mwldan fel rhan o daith 16-dyddiad yn y DU.

Poland's most acclaimed trio have honed a totally unique style, an exquisite mix of modern Polish music, klezmer, contemporary jazz and chamber classical music, which has delighted audiences the world over.

Presented by Theatr Mwldan as part of a 16-date UK tour.

**£20 (£18)**

**Cerddoriaeth | Music**



"Mae Kroke yn perfformio'n fyw yn brofiad gwych a bythgofiadwy."

"Kroke live are a hair-raisingly brilliant, unforgettable experience."

- JON LUSK, BBC RADIO 3

A LICHFIELD GARRICK PRODUCTION

## Farm Boy

20 + 21 Mai/May 6pm

Mae dilyniant cymhellol Michael Morpurgo i 'War Horse' yn sioe deuluol, hyfryd sy'n cyfuno drama, adrodd straeon, a cherddoriaeth wreiddiol - yn gyfrif teimladwy o'r newid yn wyneb cefn gwlad ac yn ein hatgoffa'n grefftus fel y gall straeon estyn allan ar draws y cenedlaethau


Addaswyd a chyfarwyddwyd gan Daniel Buckroyd.

Michael Morpurgo's compelling sequel to 'War Horse' is a delightful, family-friendly show combining drama, storytelling, and original music - a moving account of the changing face of the countryside and a beautifully crafted reminder that stories really can reach out across the generations.

Adapted & directed by Daniel Buckroyd.

**£16.50, £13.50 | Ysgolion/Schools £10 8+ | 60 munud/min**

**Theatr | Theatre**



MARK THOMPSON PRODUCTIONS  
**Tom Gates on Stage**

29 Mai/May 12:30pm + 3.30pm

Yn seiliedig ar y llyfrau poblogaidd gan Liz Pichon, daw Sioe Lwyfan EPIC Tom Gates i'n theatr gan ddod â'r darluniau a'r gerddoriaeth sy'n ei wneud yn hynod boblogaidd ledled y byd yn fyw! Gydag alawon bachog a pherfformiadau hynod ddoniol, mae'r sioe lwyfan newydd wych hon yn dod â'r gorau o Fyd Disglair Tom Gates i mewn i un sioe fyw

Based on the bestselling books by Liz Pichon, Tom Gates' EPIC Stage Show comes to our theatre bringing alive the illustrations and music that makes Tom Gates hugely popular around the world. With catchy tunes and hilarious performances, this fantastic new stage show brings the best of the Brilliant World of Tom Gates into one live show.



£18, £17, Tocyn teulu / Family ticket £60 |  
 Oed/age 4-10 | 60 mund / 60 min  
 Teulu | Family

PUFFLING PRODUCTIONS

**Puffling Percy**

30 Mai/May 11:30am + 2pm

Mae haid gyfan Percy ar fin mudo tua'r de am y gaeaf. Os nad yw'n dysgu hedfan, bydd yn cael ei adael ar ôl ac - yn fwy na hynny - bydd ei fywyd mewn perygl marwol.

Sioe galonogol am gyfeillgarwch, goresgyn hunan-amheuaeth ac ymddiried yn eich greddfau eich hun. Gyda cherddoriaeth wreiddiol, pypedwaith hudolus a stori dwymgalon, bydd Puffling Percy yn eich ysgwyd, eich difyrro a'ch codi i fyny, i fyny ac i fwrdd

Percy's entire flock are about to migrate south for the winter. If he doesn't learn to fly, he will be left behind and - what's more - his life will be in mortal danger.

An uplifting show about friendship, overcoming self-doubt and trusting your own instincts. With original music, enchanting puppetry and a heartwarming story, Puffling Percy will shake you by your tail-feathers and lift you up, up & away.

£11.50, £7.50, Tocyn teulu / Family ticket £30 |  
 oed/age 4-10 | 60 mins

Teulu | Family



Fotograffydd/Photographer: Bae Forest

**Codi Cymru Rising**

31 Mai/May 7:30pm

Mae Codi Cymru Rising yn cynnwys pedwar artist o Gymru, ar wahanol gyfnodau o'u gyrfaeodd, sydd ag angerdd a rennir tuag at chwarae'n fyw, a'r gred y gall cerddoriaeth ffurfio cyfeillgarwch a fydd yn para am byth. Dewch i glywed pethau arbennig iawn yn digwydd. Yn cynnwys TeiFi, Floriane Lallement, Gary on Clarion a Panedeni.

Codi Cymru Rising is made up of four artists from Wales, at different stages of their careers, with a shared passion for playing live and the belief that music can form friendships that will last for ever. Come and hear special things happen with passion. Featuring TeiFi, Floriane Lallement, Gary on Clarion and Panedeni.

£12, £10

Cerddoriaeth | Music



**Cicio'r Bar**

5 Mehefin/June 7.45pm

Ymunwch â Eurig a Hywel, dau ffrind a dau fardd lleol am noson llawn hwyl, barddoniaeth a chanu.

Join local Welsh prize winning poets Eurig and Hywel for an evening of poems, singing and laughing.

£11.50, £9.50

Cerddoriaeth | Music  
 Barddoniaeth | Poetry

KILIMANJARO LIVE LTD

**JOOLS HOLLAND**

and his Rhythm & Blues Orchestra  
 featuring GILSON LAVIS


12 Mehefin/June 7:30pm

Bydd Jools Holland a'i Gerddorfa Rhythm & Blues, ynghyd â'r seren wadd arbennig Chris Difford, a'r cantorion Ruby Turner, Louise Marshall a Sumudu Jayatilaka yn chwarae.

We welcome Jools Holland and his Rhythm & Blues Orchestra back to the Arts Centre, along with special guest star Chris Difford and guest vocalists Ruby Turner, Louise Marshall and Sumudu Jayatilaka.

£61 - £49

Cerddoriaeth | Music



BRS ENTERTAINMENT LTD

**Killer Queen**

13 Mehefin/June 8pm

Gyda Patrick Myers fel Freddie Mercury, mae Killer Queen wedi bod yn gwefreiddio cynulleidfaoedd orlawn ar draws y byd ers 1993. Mae eu dawn gerddorol arbenigol, eu hegni rhyfeddol a'u portread cywir o fand byw gorau'r byd wedi ennill iddynt y teitl haeddiannol o'r sioe deyrnged orau i Queen.

Mae Killer Queen yn ail-greu'r ffenomen pwerus, egniu-uchel oedd yn nodweddiadol o Queen yn fyw.

Fronted by Patrick Myers as Freddie Mercury, Killer Queen have been thrilling sell-out audiences across the globe since 1993. Their expert musicianship, extraordinary energy and accurate portrayal of the world's greatest live band have rightfully earned them the title of Queen tribute royalty.


Killer Queen recreates the high energy; powerful phenomenon that was Queen live.

£29

Cerddoriaeth | Music



YSGOL LWYFAN CANOLFAN  
CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH ARTS  
CENTRE STAGE SCHOOL



Disney · PIXAR  
**FINDING NEMO JR.**

**13 – 14 Mehefin/June 7pm, 2pm**

Ymunwch ag Ysgol Lwyfan Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth a phrofwch ryfeddodau tanddwr Finding Nemo JR. Ymgollwch eich hun yn y cynhyrchiad teuluol hwn sy'n nodweddu perfformwyr ifanc talentog yn dod â'r cymeriadau hoffus yn fyw. Dilynwch daith anturus Nemo, Marlin, a Dory wrth iddynt hwylio'r cefnfor anferth, gan ddod ar draws bywyd morol hynod a chyfeillgarwch twymgalon.

Join Aberystwyth Arts Centre Stage School and experience the underwater wonder of Finding Nemo JR. Immerse yourself in this family-friendly production featuring talented young performers bringing the beloved characters to life. Follow the adventurous journey of Nemo, Marlin, and Dory as they navigate the vast ocean, encountering quirky marine life and heartwarming friendships.

**£16.50, £14.50 | Addas i bawb / Suitable for all | 60 munud egwyl 20 munud/ 60 min 20 min interval**

**Teulu | Family**

## Queer Lit Quarterly

13 Mehefin/June 6pm

Gyda Gayberystwyth Books yn cyflwyno a gyda chefnogaeth gan Aberration Cymru, mae Queer Lit Quarterly yn dod â phanel o awduron LGBTQ+, ymchwilwyr, a ffans Llenyddiaeth Hoyw at ei gilydd am noson o drafod a gwerthfawrogi llenyddiaeth LGBTQ+. Os ydych wrth eich bodd gyda Llenyddiaeth Hoyw, dyma'r digwyddiad eithaf i chi. Croeso i bob oedran. Lleoliad yn gwbl hygrych.

Hosted by *Gayberystwyth Books* and supported by *Aberration Cymru*, *Queer Lit Quarterly* brings together a panel of LGBTQ+ writers, researchers, and fans of Queer Literature for an evening of discussion and appreciation of LGBTQ+ literature. If you love all things Queer Literature, this is the ultimate event for you. All ages welcome. Venue fully accessible.

£8

**Barddoniaeth, Chwedleua a'r Gair Llafar/  
Poetry, Storytelling & Spoken Word**



SHORTLISTED FOR THE DYLAN THOMAS PRIZE  
AND THE POLARI FIRST BOOK PRIZE

**LOCAL FIRES**

Stories

**JOSHUA JONES**



ARAD GOCH

## Sgleinio'r Lleud

18 Mehefin/June 10am + 1pm

Addasiad llwyfan o'r llyfr poblogaidd i blant gan Caryl Lewis a Valérie Leblond, ar gyfer plant 3-8 oed a'u teuluoedd, ynghyd â siaradwyr Cymraeg newydd.


Ymunwch â Byrti a Bwbwr wrth iddyn nhw sgleinio'r lleud. Pam mae Pwnic yn dweud wrth y ddau am beidio gwneud hynny? O diar, bydd y byd i gyd yn dywyll! Yna, mae rhywbeth hudolus iawn yn digwydd...

A stage adaptation of Caryl Lewis and Valérie Leblond's popular children's book, suitable for children aged 3-8 and their families, as well as new Welsh speakers.

£10-£7

**Ysgolion yn unig/  
Schools Only**

**I archebu tocyn,  
cysylltwch â Arad Goch:  
Contact Arad Goch to  
book your tickets:  
Anne@aradgoch.org / 01970 617998**



THEATR GYMUNEDOL ABERYSTWYTH  
COMMUNITY THEATRE

## The Allotment and Other Produce

20 + 21 Mehefin/June  
2pm + 7.30pm

Yn *The Allotment* gan Gillian Plowman 'rydym yn cyfarfod â phedair menyw sy'n cyflawni gorchmynion cosb gymunedol yn tyfu llysiau ar gyfer cegin gawl leol. A fydd eu cwllwm cyd-gymorth yn cael ei herio gan benodiad swyddog prafw newydd? Mae *Other Produce* yn gymysgedd gwreiddiol, yn ei dro yn gorawl, yn amserol, yn bryfoclyd ac yn ddoniol. Gallwch ddisgwyl mynwentydd gwlyb domen, cacen Dundee, ciniawau lletchwith, ond dim Dawnsio Morys



In Gillian Plowman's *The Allotment* we meet four women serving community punishment orders growing vegetables for a local soup kitchen. Will their mutual support bond be challenged by the appointment of a new probation officer? *Other Produce* is an original miscellany, in turn choral, topical, provocative, and amusing. Expect rain sodden cemeteries, Dundee cake, difficult dinners, but no Morris Dancing.

**£13.50, £9.50**

**Theatr | Theatre**



**AMAZING ANIMALS**

★★★★★

**A CELEBRATION OF ALL CREATURES  
GREAT AND SMALL**

**21 Mehefin/June 1pm + 3.30pm**

Os ydych yn hoff o anifeiliaid, byddwch wrth eich bodd efo *Amazing Animals*. Mae'r sioe gyffrous hon sy'n dod ag anifeiliaid llawn-faint yn fyw, yn llawn chwerthin, ffeithiau hwyliog, a mewnwelediadau hynod ddiddorol am greaduriaid o bob rhan o'r byd. Mae'n brofiad perffaith i bob oedran.

If you're an animal lover, you'll absolutely adore *Amazing Animals*. This exciting show brings life-sized animals to life, filled with laughter, fun facts, and fascinating insights about creatures from all over the world. It's the perfect experience for all ages.

**£17.50, £15.50 | Tocyn teulu/Family ticket £50**  
**Addas i bawb/Suitable for all | 75 munud / min**  
**Teulu | Family**

# Gŵyl Serameg Ryngwladol 2025 International Ceramics Festival 2025

27 – 29 Mehefin/June

Mae rhaglen Gŵyl Serameg Ryngwladol 2025 yn canolbwyntio'n arbennig ar GYNALIADWYEDD gyda digonedd o weithgareddau am ddim o gwmpas Canolfan y Celfyddydau a'r piazza. Gallwch addurno pot, ymuno â thaniad racw, cwrdd â'r arddangoswyr yn eu gweithle a phrynu campwaith serameg neu gwpan cymedrol yn un o'r arddangosfeydd niferus. Peidiwch â methu'r gosodweithiau sain a serameg hynod



yn Oriol 1. Trwy ddydd Sadwrn a dydd Sul ceir arddangosiadau ar y llwyfan gyda darlithoedd, ffilmiau a thrafodaethau yn y theatr a'r sinema gan gynnwys sesiynau cyffrous ar Serameg yng Nghymru a Chynaliadwyedd. Gyda llu o artistiaid, tanwyr odynau a darlithwyr gwadd o Gymru a phob rhan o'r byd. Ymwelwch â'n gwefan am ddiweddariadau ar y digwyddiad a gweithdai cysylltiedig ar adeiladu odynau, kintsugi ac uwchgylchu serameg.

The programme for ICF 2025 has a special focus on SUSTAINABILITY with lots of free activities around the Arts Centre and piazza. You can decorate a pot, join a raku firing, meet the demonstrators in their workspace and buy a ceramic masterpiece or a modest cup from one of the many exhibitions. Don't miss the extraordinary sound and ceramics installations in Gallery 1. Through Saturday and Sunday there are demonstrations on stage with lectures, films and discussions in the theatre and cinema including exciting sessions on Ceramics in Wales and Sustainability. With a host of guest artists, kiln firers and lecturers from Wales and around the globe. Watch the website for updates on the event and related workshops on kiln building, kintsugi and up-cycling ceramics.

£211.50 - £131.50

[www.internationalceramicsfestival.org](http://www.internationalceramicsfestival.org)



# Gŵyl Gerddoriaeth Ryngwladol & Ysgol Haf International Music Festival & Summer School

26 Gorffennaf – 2 Awst

26 July – 2 August

Mae ein gŵyl ac ysgol haf ryngwladol flynyddol yn dychwelyd gyda rhaglen anhygoel. Eleni mae gennym Bryn Terfel a Mererid Hopwood gyda chaneuon gwerin Cymreig; Serch yw'r Doctor gan Moliere gyda geiriau gan Saunders Lewis a chefnogaeth gan Gerddorfa Opera Genedlaethol Cymru; dathliad o Jane Austen; Cerddorfa Siambr Cymru; y triawd piano gwych Art Deco; y feiolinyddes Gymreig Sarah Trickey gyda rhaglen o gyngherddau Jelly d'Aranyi ac i agor, y Sinfonia Cymru bendigedig.

Our annual international festival and summer school returns with an amazing programme. This year we have Bryn Terfel and Mererid Hopwood with Welsh folk songs; Moliere's *Serch yw'r Doctor*, its libretto by Saunders Lewis, supported by the Welsh National Opera Orchestra; a celebration of Jane Austen, the Welsh Chamber Orchestra, the amazing piano trio Art Deco, Welsh violinist Sarah Trickey with a programme of Jelly d'Aranyi concerts and to open the wonderful Sinfonia Cymru.

Mwy o wybodaeth | Full details at [musicfestaberystwyth.org](http://musicfestaberystwyth.org)

Cerddoriaeth | Music

MUSICFEST  
Aberystwyth



SIOE HAF CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH 2025  
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE SUMMER PRODUCTION 2025

**8 – 30 Awst/August**

**Mawrth – Sadwrn 7pm**  
**Pefformiadau Cymraeg Mawrth, Iau, Sadwrn 2pm**

**Tues – Sat 7pm**  
**Matinees Tues, Thurs & Sat 2pm**

**Cyfarwyddwr/  
Director**  
Richard Cheshire

**Coreograffydd/  
Choreographer**  
James Bennett

**Cyfarwyddwr Cerddorol/  
Musical Director**  
David Roper

Ymunwch â ni ar y *Yellow Brick Road* a thros yr enfys i Wlad Oz, lle ymunir â Dorothy a'i chi ffyddlon Toto gan ffrindiau newydd sef y Bwgan Brain, y Gŵr Tun a'r Llew Llwr wrth iddi geisio ffeindio'i ffordd adref.

Gyda chast proffesiynol a band byw, rydym yn addo noson o gerddoriaeth fendigedig, gwrachod drygionus (a rhai da hefyd), a'r gwerthoedd cynhyrchu uchel y mae Sioeau Haf Canolfan y Celfyddydau yn adnabyddus amdanynt.

Os oeddech wedi mwynhau *Wicked*, wel dewch draw i weld beth ddigwyddodd nesaf...

Join us on the *Yellow Brick Road* and over the rainbow to the Land of Oz, where Dorothy and her faithful dog Toto are joined by new friends Scarecrow, Tin Man and the Cowardly Lion as she tries to find her way home.

With a professional cast and live band, we promise you an evening of wonderful music, wicked witches (and good ones too), and the high production values that the Arts Centre's Summer Shows are renowned for.

If you enjoyed *Wicked*, well come along and see what happened next...

**£33.50, £27.50**

**Tocyn Teulu/Family tickets £136, £84**

**Teulu | Family**

# THE WIZARD of OZ



Band Pres  
Cenedlaethol  
Ieuencid Cymru  
  
National Youth  
Brass Band  
of Wales

## National Youth Brass Band of Wales

22 Awst/August 7.30pm

Mae Paul Holland, cyn-aelod Band Pres Cenedlaethol Ieuencid Cymru a Chyfarwyddwr Cerddorol y Band Pres Flowers a enillodd Bencampwriaeth 2024, yn dychwelyd i arwain ei gyn-fand mewn rhaglen wych o gerddoriaeth sy'n sicrhau rhywbeth at ddant pawb. Yr unawdydd fydd yr offerynnwr taro ifanc disglair, Jordan Ashman, enillydd cystadleuaeth Cerddor Ifanc y Flwyddyn y BBC 2022. Gallwn addo noson fendigedig, yn llawn egni, angerdd a doniau cerddorol syfrdanol.

Paul Holland, NYBBW Alumnus and Musical Director of the 2024 Championship Brass Band Flowers, returns to conduct his former band in a programme full of fantastic music that promises something for everyone. Soloist will be the brilliant young percussionist, Jordan Ashman, winner of the 2022 BBC Young Musician of the Year competition. A wonderful evening is guaranteed, full of energy, passion and stunning musicianship.

£16.50 - £6.50

Cerddoriaeth | Music

## Cyn bo hir.. | Coming soon..

THEATR IEUENCID HŶN CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH  
YN CYFLWYNO

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE UPPER YOUTH THEATRE PRESENTS


# Miracle on 34th Street the Musical

gan/by Meredith Wilson

11/12/2025 - 14/12/2025

Sioe Aeaf Ysgol Lwyfan Canolfan y Celfyddydau  
Aberystwyth i'w chyhoeddi'n fuan.

Aberystwyth Arts Centre Stage School Winter show to  
be announced soon.



Horrible Histories -  
Gorgeous Georgians  
& Vile Victorians



Only Men Aloud



Gŵyl Eye International  
Photography Festival



The ELO Tribute  
Show



Cerys Hafana



Queenz: Drag Me  
to the Disco



The Three Little Pigs



Singalong with  
Sgarmes and Friends



Trawsnewid |  
Transform 2026



Am y ffilmiau diweddaraf, clasuron a mwy ewch i'n gwefan i weld yr amserlen sinema fisol, neu glawch mewn am gopi - egsus am Amser Da!

For new films, classics and more check out our monthly cinema listings on our website or pop in for a timetable - Time Well Spent!

[aberystwythartscentre.co.uk/cinema](http://aberystwythartscentre.co.uk/cinema)



## Sgriniadau byw | Live Screenings

Mae ein sgrinidau byw o'r Theatr Genedlaethol, y New York Met a'r Opera Brenhinol, yn ein sinema gyfforddus yn gyfle ichi fwynhau darllediadau byw o bob cwr o'r byd heb orfod gadael Aber!

Our live broadcast shows from the National Theatre, New York Met and the Royal Opera, allow you to watch the best live performances from across the globe in our comfy cinema in Aberystwyth!

Sgriniadau byw  
o Operau y Met yn  
Efrog Newydd /  
Live Screenings  
from the New York  
Met Opera



**NY MET:  
Le Nozze  
di Figaro  
(Mozart)**

02/05/25 1pm



**NY MET:  
Salome  
(Strauss)**

17/05/25 6pm  
23/05/25 1pm



**THE ROYAL  
BALLET:  
Ballet to Broadway:  
Wheeldon Works**


22/05/25 7:15pm  
[ENCORE] 27/05/25 1pm

Sgriniadau byw  
o'r Opera a Ballet  
Brenhinol /  
Live Screenings  
from the Royal  
Opera and Ballet



**NY MET: Il Barbiere  
di Siviglia (Rossini)**

31/05/25 6pm | 06/06/25 1pm



National  
Theatre  
Live

**STEVE  
COOGAN**  
IN  
STANLEY KUBRICK'S  
**DR.  
STRANGELOVE**

ARMANDO IANNICCI  
SEAN FOLEY

**NT LIVE:  
Dr. Strangelove**

03/05/25 5pm | 07/05/25 7:45pm

# Arddangosfeydd | Exhibitions

Mai - Medi / May - September 2025

## Oriel 1 | Gallery 1



Llun Cynhyrchiad, Sŵn Na Ddylid ei Glywed [Darllediad] 2018. Ffotograff: David Cushway.  
Production Shot, A Sound Not Meant to be Heard [Broadcast] 2018. Photo: David Cushway.

## Anthony Shapland *Celwyddgi Celwyddgi / Liar Liar*

Ebrill - Mehefin 15 | April - June 15

Dyddiad agor i'w gadranhau oherwydd gwaith adeiladu yn yr oriel fel rhan o CELF - Yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru, edrychwch ar ein wefan am ddiweddariadau.

Mae'r arddangosfa hon yn defnyddio technegau cudd o wneud ffilmiau - propiau, hidlwyr, golau a sain. Ar un lefel mae hi'n ymwneud â rhith a chuddio; ar lefel arall mae'n tynnu ar brofiad bywyd Shapland o gyfunrywiaeth wledig, gan dyfu i fyny'n *perfformio*. Rhoddodd hyn y teimlad iddo, os oedd yn pasio ac yn ymdoddi i mewn, yna 'roedd yn dirwedd o'i gwmpas yr un mor hydrin ac hylifol, yn esblygu'n gyson, popeth dros dro - yn stori.

Mae *Celwyddwr Celwyddwr* hefyd yn lansio testun Cymraeg newydd, a wnaethpwyd mewn deialog gyda'r bardd a'r artist Eysyllt Lewis mewn ymateb i nofel gyntaf Shapland *A Room Above a Shop* a gyhoeddwyd gan Granta.

The Opening date to be confirmed due to major gallery building works as part of CELF: The National Contemporary Art Gallery for Wales, please check our website for updates.

*Liar Liar* uses hidden techniques of filmmaking – props, filters, light and sound. On one level the exhibition is about illusion and disguise; on another it draws on Shapland's life-experience of rural queerness, growing up *performing straight*. It gave him the sense that if he was *passing* and *blending-in* then the landscape around him was just as malleable and fluid, constantly evolving, always temporary – a story.

*Liar Liar* also launches a new Welsh text, made in dialogue with poet and artist Eysyllt Lewis in response to Shapland's first novel *A Room Above a Shop*, published by Granta.

# O Serameg i Sain From Ceramics to Sound

Mehefin 27 – Medi 15 / 27 June – September 15



'Will.je.suis' 2020, fideo / video, William Cobbing.

Tri ymarfer sy'n cyfuno serameg a sain: Will Cobbing, Abi Haywood a Copper Sounds.

Yn cyflwyno fideo a cherflun serameg mewn gosodiadau amlgyfrwng ymdrochol, mae pob artist yn archwilio sut y gellir actifadu y cyfrwng o glai trwy berfformiad a thechnoleg, wrth drin sain – fel clai - fel deunydd hyblyg.

Mae'r arddangosfa hon sydd wedi'i churadu gan yr Athro Moira Vincentelli a Ffion Rhys yn cyd-fynd â'r Wyl Serameg Ryngwladol a gynhelir bob dwy flynedd yng Nghanolfan y Celfyddydau, a gynhelir rhwng 27ain - 29ain Mehefin eleni, gan roi llwyfan i serameg trwy arddangosiadau, adeiladu o dynau, darlithoedd, ffilmiau, arddangosfeydd a gweithgareddau ymarferol.

Three practices that combine ceramics and sound: Will Cobbing, Abi Haywood and Copper Sounds.

Presenting video and ceramic sculpture in immersive multimedia installations, each artist explores how the medium of clay can be activated through performance and technology, treating sound – like clay – as a malleable material.

This major exhibition curated by Moira Vincentelli and Ffion Rhys coincides with the International Ceramics Festival held at the Arts Centre biennially, taking place on 27th - 29th June this year, giving a platform for ceramics through demonstrations, kiln builds, lectures, films, exhibitions and hands-on activities.



The MôrThe Merrier, ceramic sculpture and sound, Abi Haywood.



Sequenced Ceramics, Copper Sounds.

## Lluosogrwydd / Multiplicity

24 Chwefror – 1 Mehefin  
24 February – 1 June

Mae'r arddangosfa hon yn ganlyniad i raglen fentora 6 mis sy'n arddangos gwaith 7 artist o liw, gan roi llwyfan i adrodd straeon nas adroddwyd ac i greu ymatebion artistig sy'n cynrychioli croestoriad, lluosogrwydd, a bod rhwng tiroedd ac hunaniaeth. Gan weithio mewn partneriaeth gyda'r artist arweiniol Jasmine Violet, mae hyn yn rhan o brosiect ehangach o'r enw Persbectif(au), mewn cydweithrediad â Chyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru, i sicrhau newid sylweddol yn y modd y mae'r celfyddydau gwledol a'r sector treftadaeth yn adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig ein cymdeithas ac i ddathlu'r cymunedau amrywiol sy'n ffurfio Cymru ar hyn o bryd.

This exhibition is the culmination of a 6 month mentorship programme that showcases the work of 7 artists of colour, giving a platform to tell



untold stories and to create artistic responses that represent intersectionality, multiplicity, and being between lands and identity. Working in partnership with lead artist Jasmine Violet, this is part of a wider project called Perspective(s), in collaboration with the Arts Council of Wales and Amgueddfa Cymru National Museum Wales to bring about a step change on how the visual arts and heritage sector reflect the cultural and ethnic diversity of our society and to celebrate the diverse communities that presently make up Wales.

## Bywydau Ansefydlog: Rhyfel a Dadleoli yng Nghymru Unsettled Lives: War and Displacement in Wales

14 Mehefin – 26 Hydref / 14 June – 26 October 2025

Mae eleni yn nodi 80 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Ledled y wlad, byddwn yn cofio ymladdwyr a chymunedau. Un o agweddau llai adnabyddus y rhyfel yw dadleoli - cafodd dros 60 miliwn o bobl eu dadleoli yn Ewrop yn unig, gan gynnwys llawer i Gymru. Bydd yr arddangosfa hon yn cynnwys gweithiau celf, arteffactau a straeon ymfudo y rhai a ddadleolwyd i Gymru yn ystod hanner cyntaf yr 20fed ganrif, yn ffoaduriaid, carcharorion rhyfel, a faciwis o rannau eraill o Brydain. Bydd hefyd yn cynnwys darnau gan y rhai sydd wedi cyrraedd Cymru yn fwy diweddar yn sgil gwrthdaro a rhyfel, gan gynnwys teuluoedd o'r Wcrain a Syria.



This year marks the 80th anniversary of the end of the Second World War. All over the country, we will remember combatants and communities. One of the war's lesser-known aspects is that of displacement – over 60 million people were displaced in Europe alone, including many to Wales. This exhibition will include artworks, artefacts and migration stories of those displaced to Wales

during the first half of the 20th century: of refugees, prisoners of war, and evacuees from elsewhere in Britain. It will also feature pieces from those who have arrived in Wales more recently due to conflict and war, including from Ukraine and Syria.

Courtesy of West Glamorgan Archive Service

## Bruce Cardwell: Byd Bach Aber

4 Ebrill – 8 Mehefin / 4 April – 8 June

Cyrhaeddodd Bruce Cardwell Aberystwyth ym 1981 i astudio yn y brifysgol, ac nid yw ei hoffter o'r dref wedi pylu hyd heddiw.

Mae'r arddangosfa hon yn dathlu'r bobl sy'n siapio natur cymuned Aberystwyth, cymuned Gymreig lewyrchus sydd â chymysgedd amrywiol o ddiwylliannau ac hunaniaethau.

Efallai y bydd y sawl sy'n edrych ar Aberystwyth ar fap yn gweld tref fach anghysbell ar arfordir gorllewinol Cymru, ond mae "Byd Bach Aber" yn dangos mai dyma'r hwb y mae'r byd hwn yn troi o'i gwmpas mewn gwirionedd.

Agorwch eich llygaid...



Bruce Cardwell arrived in Aberystwyth in 1981 to study at the university, and his affection for the town is undimmed today.



This exhibition celebrates the people who determine the nature of the community of Aberystwyth, a thriving Welsh community with a diverse mixture of cultures and identities.

Those looking at Aberystwyth on a map may see a remote settlement on the western seaboard of Wales, but "Byd Bach Aber" shows that it is actually the hub around which this world is spinning.

Open your eyes...

## Ben Boswell Cyffyrddiad Trawsffurfiol / Transformative Touch

13 Mehefin – 27 Gorffennaf  
13 June – 27 July

Mae Ben Boswell wedi bod yn tynnu lluniau o seramegyddion ers dros 40 mlynedd. Ers 2017 mae wedi bod yn dogfennu'r Wyl Serameg Ryngwladol gyda ffocws ar yr arddangosiadau, ar y prif lwyfan ac yn y pebyll mawr.

"Pan ddechreuais dynnu lluniau o grochenwyr, 'roeddwn yn meddwl bod fy niddordeb yn bennaf yn y gwneuthurwyr eu hunain, grŵp o bobl y mae gennyf gysylltiad agos â nhw. Yr hyn a sylweddolais, wrth edrych ar y lluniau'n ofalus, oedd bod fy ffocws yn hytrach ar y berthynas unigryw rhwng y crochenydd a'i ddeunydd - y ffordd y mae dwylo neu offer yn trawsffurfio'r clai o fwd i mewn i wrthrychau o harddwch a soffistigedigrwydd."

Ben Boswell has been photographing ceramicists for over 40 years. Since 2017 he has been documenting the International Ceramics Festival with a focus on the demonstrations, both on the main stage and in the marquees.

"When I started photographing potters, I thought my interest was in the makers themselves, a group of people for whom I have great affinity. What I realised, when I really looked at the pictures, was that my focus was firmly on the relationship between the potter and their material; capturing the way that hands or tools transform the clay from mud into objects of beauty and sophistication."



# Val riane Leblond

1 Awst – 12 Hydref  
1 August – 12 October

Mae Val riane Leblond yn artist Ffrengig a Quebeck sy'n byw yng Nghymru. Wedi'i ddylanwadu gan gelfyddyd werin a chynefinol, mae ei phaentiadau a'i darluniau yn aml yn ymddrin â'r syniad o berthyn, sut mae pobl yn byw yn y tir a beth sy'n gwneud y lle mae'n nhw'n ei alw'n gartref.

Val riane Leblond is a French and Quebecker artist living in Wales. Influenced by folk and primitive art, her paintings and illustrations often deal with the idea of belonging, how people inhabit the land and what makes the place they call home.



Image: Val riane Leblond, Hiraethu Longing

## Arddangosfa diwedd blwyddyn Coleg Ceredigion: Ymladd neu Hedfan

### Coleg Ceredigion End of Year Show: Fight or Flight

3 - 13 Mehefin / 3 - 13 June

Mae Coleg Ceredigion cwrs Celf a Dylunio arddangosfa diwedd y flwyddyn 2025 - disgwyl gael eich synnu! Myfyrwyr o WJEC Diploma Sylfaenol a Level 3 UAL Diploma Estynedig yn dod a chi gwaith terfynol yn cynnwys tecstilau, cerfluniau, a lluniadau.

Coleg Ceredigion Art & Design end of year exhibition 2025 - expect to be wowed! Students from WJEC Foundation Diploma and Level 3 UAL Extended Diploma bring you a culmination of work that includes textiles, sculpture, drawing.



## G wyliau ac Arddangosfeydd Fan Hyn a Fan Draw Festivals and Pop-Up Exhibitions

# MEDDIANWYD: Yr Ysgol Gelf School of Art :TAKEOVER



6 Mai 10yb – 2yp / 6 May 10am – 2pm

Ar 6 Mai bydd myfyrwyr BA y Celfyddydau Creadigol yn cyflwyno eu harddangosfa 'Cymryd Drosodd'. Mae'r digwyddiad artistig dros dro hwn yn gweld myfyrwyr yn ymateb i'r Ganolfan trwy osod eu prosiectau rhyngddisgyblaethol yn gynnil ac yn agored o fewn yr adeilad ac o'i gwmpas. Mae'r arddangosfa'n cynnwys perfformiad, cerflunwaith, ffotograffiaeth, celf ddigidol a gwaith testun sy'n ymateb i'r thema *Manifesto*. Ymunwch â ni am luniaeth ysgafn a theithiau tywys - a chyfle i gwrdd â'r artistiaid. Croeso i bawb.

On the 6 May BA Creative Arts students will be presenting the Takeover. This pop-up artistic event sees students respond to the Art Centre by subtly and overtly placing their interdisciplinary projects within spaces in and around the building. The exhibition features performance, sculpture, photography, digital art and text-based work that responds to the theme of *Manifesto*. Join us for refreshments and tours and a chance to meet the artists - all welcome.

## Clai / Clay

12 Mehefin – 11 Awst /  
12 June – 11 Aug

I gyd-fynd â'r wyl Serameg Ryngwladol, chawn arddangosfa o weithiau celf a wnaed gan y gymuned mewn gweithdai sy'n ymateb i'r thema yr wyl o gynaliadwyedd ac uwchgylichu.

To coincide with the International Ceramics festival, a pop-up exhibition will host artworks made by the community in workshops that respond to the festivals' theme of sustainability and upcycling.



## Preswyliadau | Residencies

# Dorian Teti


Mehefin – Awst / June – August

Rydym yn hynod o falch i barhau gyda'n rhaglen o breswyliadau rhyngwladol MAGNETIC - menter ar y cyd rhwng Ffrainc a'r Deyrnas Unedig a lansiwyd yn 2022 dan ymbar el Fluxus Art Projects.

Mae'r rhaglen yn seiliedig ar 4 partneriaeth tandem rhwng rhanbarth Ffrengig a chenedl Brydeinig ac rydym yn falch iawn bod Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Cymru yn bartner gyda Llydaw, Frac Bretagne yn Rennes. Gobrwyd y preswyliad i'r artist Dorian Teti o Lydaw a fydd yn preswylu yn ein Stiwdio Creadigol dros yr haf.

We are extremely pleased to continue with our programme of international residencies MAGNETIC - a joint Franco-British initiative launched in 2022 under the umbrella of Fluxus Art Projects.

The programme is based on 4 tandem partnerships between a French region and a British nation, and we are very pleased that in Wales, Aberystwyth Arts Centre is partnered with Brittany, Frac Bretagne in Rennes. The residency has been awarded to Dorian Teti, an artist from Brittany who will take residence in our Creative Studio in the summer.



# Gwaddol o Glai A Legacy in Clay

Ray Finch (1914-2012) a/  
and Winchcombe Pottery

25 Ionawr – 8 Mehefin  
25 January – 8 June

Mae'r arddangosfa hon yn dathlu gwaith Ray Finch, crochenydd crefftus o fri a gymerodd drosodd Grochendy Winchcombe yn Swydd Gaerloyw yng nghanol yr 20fed ganrif oddi wrth ei fentor, Michael Cardew. Ymhen amser, cymerodd Finch, a ddaeth yn brentis i Cardew yn 22 oed, ofal am y crochenwaith ac yn y pen draw daeth yn berchennog arno. Dan ei arweiniad, adeiladwyd busnes llewyrchus iawn.

This exhibition celebrates the work of Ray Finch, a renowned craftsman potter who took over Winchcombe Pottery in Gloucestershire in the mid-20th century from his mentor, Michael Cardew. Finch, who became Cardew's apprentice at age 22, eventually took charge of the pottery and later became its owner. Under his leadership, he built a thriving business.



# AIL: WNEUD / RE: MADE

21 Mehefin - 12 Hydref / 21 June – 12 October



Wedi eu Huwchgylchu a'u Cydosod yng Nghymru.

Arddangosfa o waith gan artistiaid sy'n uwchgylchu, yn ail-ddefnyddio ac yn ail-osod deunyddiau a deflir i ffwrdd i greu gweithiau newydd. Yn cynnwys serameg gan Elif Agatekin, Sally Stubbings a Bonnie Grace a weithiodd gyda deunydd o Weithfeydd Porslen Nantgarw, yn ogystal â serameg gan Peter Bodenham a Cleo Mussi, a gwydr gan Linda Norris. Hefyd, fe arddangosir gweithiau o Gasgliad Serameg y Brifysgol.

Upcycled and Assembled in Wales.

An exhibition of work by artists who upcycle, re-use and reassemble discarded materials to create new works. Featuring ceramics by Elif Agatekin, Sally Stubbings and Bonnie Grace who worked with material from Nantgarw China Works, as well as ceramics by Peter Bodenham and Cleo Mussi, and glass by Linda Norris. Also, on display will be works from the University's Ceramics Collection.

Supported by



# Cymryd rhan

Eisiau dysgu Dawns Theatr Gerddorol? Awydd ail gydio yn y brws paent neu'r hen gamera?

Ffansi bod yn actor neu'n animeiddiwr? Beth bynnag mae Amser Da yn ei olygu i ti, dyma'r lle i roi tro arni a datblygu dy sgiliau creadigol.

# Get involved

Want to learn Musical Theatre Dance? Fancy picking up a paint brush or dusting off that old camera?

Want to be an actor or animator? Whatever Time Well Spent looks like to you, we're the perfect place to give it a go and develop your creative skills.

# Ysgol Ddawns, Ysgol Lwyfan a Theatr Ieuentid

Mae'r Ysgol Ddawns yn dilyn system raddedig yr Academi Ddawns Frenhinol (RAD) ar gyfer Bale, a'r Gymdeithas Imperialaidd Athrawon Dawns (ISTD) ar gyfer Modern a dawnsio Tap. Mae'r arholiadau'n ddefnyddiol o ran mesur cyflawniad ac maent wedi eu cynllunio i fod o fewn gallu bron pob disgybl ond nid ydynt yn orfodol.

Mae ein Hysgol Lwyfan a'r Theatr Ieuentid yn cynnig

hyfforddiant actio proffesiynol i berfformwyr ifanc o bob oedran mewn amgylchedd hwyliog, cefnogol a chynhwysol. Trwy ddosbarthiadau rheolaidd, bydd yr aelodau yn datblygu eu sgiliau mewn actio, dawnsio a chanu, gyda chyfleoedd blynyddol i roi eu sgiliau ar waith trwy gyflwyniadau yn y stiwdio a pherfformiadau ar y prif lwyfan, yn ogystal â'r cyfle i sefyll arholiadau.



# Dance School, Stage School & Youth Theatre

The Dance School follows the graded system of the Royal Academy of Dance (RAD) for Ballet, Imperial Society of

Teachers of Dancing (ISTD) for Modern and Tap. Examinations provide a useful yard stick of achievement and are designed to be within the scope of virtually all pupils but are not compulsory.

Our Stage School and Youth Theatre offer professional actor training for young performers of

all ages in a fun, supportive, and inclusive environment. Through their regular classes, members will develop their skills in acting, dancing and singing, with annual opportunities to put their skills into practice through studio presentations and main stage performances, as well as the opportunity to take examinations.

# Coleg y Drindod Llundain

Mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn falch iawn i gyhoeddi ei statws newydd fel Canolfan Arholi Gofrestredig gyda Choleg y Drindod Llundain. Mae'r garreg filltir arwyddocaol hon yn ein galluogi i gynnig arholiadau Drama mewn Actio, Celfyddyd Berfformio, Theatr Gerddorol ac Actio ar gyfer y Sgrîn. Mae'r datblygiad cyffrous hwn yn adeiladu ar dros ddegawd o lwyddiant fel Canolfan Ddyfarnu Gelfyddydol, lle 'rydym wedi meithrin creadigrwydd a dathlu llwyddiannau artistig pobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd.



# Trinity College London

Aberystwyth Arts Centre is delighted to announce its new status as a Registered Exam Centre with Trinity College London. This significant milestone allows us to offer Drama examinations such as Acting, Performance Art, Musical Theatre and Acting for Screen.

This exciting development builds on over a decade of success as an Arts Award Centre, where we have nurtured creativity and celebrated the artistic achievements of young people and adults alike.



## Cyfleoedd eraill i gymryd rhan / Other opportunities to take part

### u3a Aberystwyth

u3a yw eich cyfle chi i ddatblygu sgiliau newydd a chreu ffrindiau yma yng Nghanolfan y Celfyddydau.

O'r Gwerthfawrogi Celf i Archeoleg, mae rhywbeth at ddant pawb.

The University of the Third Age is your opportunity to develop new skills and make new friends at the Arts Centre.

From Art Appreciation to Archeology, the choices are endless.

Gwybodaeth / Information  
[www.u3asites.org.uk/aberystwyth](http://www.u3asites.org.uk/aberystwyth)



### Dysgu Gydol Oes/ Lifelong Learning Courses

Gallwch gymryd rhan mewn nifer o ddsbarthiadau Dysgu Gydol Oes yma yn y Ganolfan.

Many Lifelong Learning Course are delivered here at the Arts Centre.

Sganiwch y côd QR am wybodaeth / Scan the QR code for information

[dysgu@aber.ac.uk](mailto:dysgu@aber.ac.uk)  
[learning@aber.ac.uk](mailto:learning@aber.ac.uk)  
01970 62 15 80



“  
I love  
it here



## Hijinx



Hijinx yw un o brif gwmniau theatr gynhwysol Ewrop, yn creu perfformiadau rhagorol gydag artistiaid ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth, ar lwyfan ac ar sgrin, i Gymru ac i'r byd.

Yn ddiweddar cafodd ein grŵp Hijinx y fraint o ymuno â chast Housemates, cynhyrchiad ar y cyd rhwng Theatr y Sherman a Theatr Hijinx. Buont yn rhannu'r llwyfan gyda'r perfformwyr ar gyfer rhediad tridiau rhyfeddol yng Nghanolfan y Celfyddydau. Ni allm fod yn fwy balch o'u cyflawniad rhagorol.

Hijinx is one of Europe's leading inclusive theatre companies, creating outstanding performances with learning disabled and/or autistic artists on stage and on screen, for Wales and for the world.

Our Hijinx group recently had the privilege of joining the cast of Housemates, a Sherman Theatre and Hijinx Theatre production. They took the stage alongside the performers for a remarkable three-day run at the Arts Centre. We couldn't be more proud of their outstanding achievement.



## Hijinx

02920 300331  
[www.hijinx.org.uk](http://www.hijinx.org.uk)



Mae Academi Canolbarth Cymru yn cyfarfod yng Nghanolfan y Celfyddydau bob Dydd Llun 9.30am - 3.30pm

The Mid Wales Academy meet at the Arts Centre every Monday 9.30-3.30pm

## Aberystwyth SCIENCE CAFÉ CAFFI GWYDDONIAETH

Dewch i wrando a sgwrsio am y syniadau gwyddonol diweddaraf yn ein Caffi Gwyddoniaeth cyfeillgar. Croeso i bawb. Mynediad am ddim!

- Mai 19 May
- Mehefin 16 June

Join us at our friendly Science Café to hear about and discuss some of the latest ideas in science. All welcome. Free to attend!



“  
Dwi wrth fy  
modd yma



# Cyrsiau Wythnosol - Weekly Courses

## Haf - Summer 2025



### DIWRNOD / DAY

#### LLUN / MONDAY

	AMSER / TIME	OEDRAN / AGE
Clwb Gwanwyn Club	1:00pm – 4:00pm	50+
Ysgol Ddawns / Dance School	4:00pm – 8:00pm	Pob Oed / All Ages
Dawns Theatr Gerddorol / Musical Theatre Dance	4:00pm – 5:00pm	11+
Iwcadwli: Grŵp Sylfaen (Ukulele Foundation Group)	4:30pm – 5:30pm	14+
Theatr Ieuentid Hŷn / Upper Youth Theatre	5:00pm – 7:00pm	14+
Iwcadwli: Grŵp Uwch (Ukulele Advanced Group)	6:00pm – 7:00pm	16+
Adult Ballet	6:00pm – 7:00pm	16+
Crochenwaith i Ddechreuwr / Pottery for Beginners	6:30pm – 9:00pm	16+
Tap i Oedolion / Adult Tap	7:05pm – 8:05pm	16+
Theatr Gymunedol Aberystwyth - ACT Aberystwyth Community Theatre	7:15pm – 9:30pm	16+

#### DYDD MAWRTH / TUESDAY

Grŵp Celf a Chyfeillgarwch / Art and Friendship Group	10:30am – 12:30pm	16+
Crochenwaith / Pottery	12:30pm – 3:00pm	16+
Ysgol Ddawns / Dance School	4:00pm – 9:00pm	Pob Oed / All Ages
Clocio i Blant / Children's Clocio	5:30pm – 7:00pm	5-12
Lab Animeiddio / Animation Lab	4:00pm – 6:00pm	9-12
Lab Animeiddio / Animation Lab	6:15pm – 8:15pm	12+
Crochenwaith - Pob Lefel / Pottery – All Levels	6:30pm – 9:00pm	16+
Côr Cymuned Heartsong Community Choir	7:15pm – 9:30pm	18+
Dawnsyr Seithenyn	7:30pm – 9:00pm	18+

#### DYDD MERCHER / WEDNESDAY

Ysgol Ddawns / Dance School	4:00pm – 9:00pm	Pob Oed / All Ages
Printio Sgrin / Screen Printing	6:30pm – 8:30pm	16+
Crochenwaith Adeiladu â Llaw / Pottery Hand Building with Clay	6:30pm – 9:00pm	16+

#### DYDD IAU / THURSDAY

Arbrofi mewn Paentio ac Arlunio / Experimentalists	9:30am – 12:30pm	18+
Ysgol Ddawns / Dance School	4:00pm – 8:00pm	Pob Oed / All Ages

Sêr Bach / Stage School Little Stars	4:00pm – 4:30pm	3-4
Clwb Celf / Art Club	4:30pm – 6:00pm	6+
Preludes / Stage School Preludes	4:30pm – 5:15pm	5-6
Theatr Ieuentid Iau / Lower Youth Theatre	5:30pm – 7:30pm	11-14
Mentora Celf / Art Mentoring	6:30pm – 8:00pm	12+
Ffotograffiaeth Ddu a Gwyn / Black and White Photography	6:30pm – 8:30pm	16+
Crochenwaith - Uwch / Pottery - Advanced	6:30pm – 9:00pm	16+

#### DYDD GWENER / FRIDAY

Bale i Oedolion / Adult Ballet	12:15pm – 1:00pm	16+
Babis Bale a Fi / Ballet Babies & Me	1:15pm – 1:45pm	18 misoedd/ months+
Bable i Fabnod / Baby Ballet	1:45pm – 2:15pm	2+
Celfyddydau Acro Arts	4:00pm – 7:15pm	2.5+

#### DYDD SADWRN / SATURDAY

Dechrau Dawnsio / Dinky Dancers	9:00am – 9:30am	18 months+
Ysgol Ddawns / Dance School	9:00am – 2:30pm	Pob Oed / All Ages
Dechrau Dawnsio + / Dinky Dancers +	9:30am – 10:00am	2.5+
Ysgol Lwyfan Hŷn/ Upper Stage School	10:00am – 12:00pm	9-11
Modelu mewn Clai / Clay Modelling	10:30am – 12:30pm	5+
Bywlyniad - Hunan-Arweiniad / Self-Led Life Drawing	10:30am – 1:30pm	18+
Ysgol Lwyfan Iau / Lower Stage School	12:20pm – 2:30pm	7-11
Dawns Theatr Gerddorol / Musical Theatre Dance	12:45pm – 1:45pm	11+
Modelu mewn Clai / Clay Modelling	1:30pm – 3:30pm	5+
Y Grŵp Barddoniaeth Ddistyllfa Eiriau / The Word Distillery Poetry Group (3ydd dydd Sadwrn o bob mis / 3rd Saturday of each month)	2:30pm – 5:00pm	18+

#### DYDD SUL / SUNDAY

Ysgrifennu Creadigol / Creative Writing	2:00pm – 4:30pm	18+
-----------------------------------------	-----------------	-----



## Dawns Gyfunol Fasnachol / Commercial Fusion Dance

### Dydd Llun / Mondays

4.15 – 4.45pm   3-4 oed/ yrs	5.30 – 6.30pm   10-13 oed / yrs
4.45 – 5.30pm   5-9 oed / yrs	6.30 – 7.30pm   14+ oed/ yrs

Tiwtor / Tutor: Chris Jones

Dawns fasnachol yw'r arddull a welwch mewn fideos cerddoriaeth ac ar lwyfan gyda sêr pop. Mae'n egniol ac yn cymysgu symudiadau cŵl o hip-hop, jas, a dawnsio stryd i gyd-fynd â cherddoriaeth boblogaidd heddiw.

Mae'n ymwneud â magu hyder, bod yn greadigol, a chael amser gwych. Dysgwch ddawnsiau newydd tra'n gwneud ffrindiau newydd. Rhennir y dosbarthiadau yn briodol yn ôl oedran, gan sicrhau cyfarwyddyd wedi'i deilwra a lot o hwyli i bawb.

Commercial dance is the style you see in music videos and on stage with pop stars. It's energetic and mixes cool moves from hip-hop, jazz, and street dance to match today's popular music.

It's all about building confidence, being creative, and having a great time. Learn new routines all while making new friends. Classes are split into age-appropriate groups, ensuring tailored instruction and loads of fun for everyone.

## Cyflwyniad i Ffotograffiaeth Ddu a Gwyn / Introduction to Black and White Photography

Dydd Iau / Thursdays | 6.30 – 8.30pm | Oedolian / Adults  
Tiwtor / Tutor: Brian Swaddling

Archwiliwch gelfyddyd ffotograffiaeth ddu a gwyn yn ein cwrs 6-wythnos sydd wedi'i gynllunio ar gyfer dechreuwyr llwyr! Ymunwch â ni mewn amgylchedd ymlaciol a chyfeillgar lle byddwch yn dysgu sut i greu delweddau du a gwyn hyfryd gan ddefnyddio dulliau traddodiadol. Byddwn yn dysgu i chi dechnegau ystafell dywyll yn seiliedig ar gemegau i chi ddatblygu ac argraffu eich ffotograffau eich hun. Mae camerau ar gael i'w benthg, felly nid oes angen i chi boeni am ddod â'ch camera eich hun. Mae'r cwrs hwn yn berffaith i unrhyw un sydd am ddeall hanfodion ffotograffiaeth, golau, a'r broses ymarferol o weithio mewn ystafell dywyll.

Explore the art of black and white photography in our 6-week course designed for complete beginners! Join us in a relaxed and friendly environment where you'll learn how to create beautiful black and white images using traditional methods. We'll teach you chemical-based darkroom techniques to develop and print your own photographs. Cameras are available to borrow, so you don't need to worry about bringing your own. This course is perfect for anyone looking to understand the fundamentals of photography, light, and the hands-on process of working in a darkroom.

## CRIW CELF CEREDIGION

Bydd ein rhaglenni Cynradd ac Uwchradd yn rhedeg yn ystod wythnos gyntaf gwyliau Haf yr ysgol - o Ddydd Llun 21ain tan Dydd Gwener 25ain Gorffennaf. Gwahoddir ymgeiswyr o Flwyddyn 4 - 13 sy'n dangos diddordeb brwd yn y celfyddydau gweledol. Mae rhaglen y Criw Celf yn cynnwys gweithdai gydag artistiaid proffesiynol, ymweliadau â stiwdios artistiaid ac arddangosfeydd eraill, a chyfle i arddangos eich gwaith ac adeiladu eich portffolio celf. Cynhelir y rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn ardal Aberystwyth, a darperir cludiant ar gyfer ymweliadau â lleoliadau eraill.

Mae ffi o £65 yn daladwy sy'n cynnwys costau'r holl weithgareddau, deunyddiau ac ymweliadau. Mae lleoedd am ddim ar gael i ymgeiswyr llwyddiannus sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. 'Rydym yn annog ceisiadau oddi wrth bobl ifanc o bob cefndir ac 'rydym yn brosiect cyfle cyfartal.

A oes gennych ddiddordeb? Cysylltwch â Laura: lao8@aber.ac.uk 01970 62 28 88

Our Primary and Secondary programmes will run during the first week of the school Summer holidays – Monday 21<sup>st</sup> – Friday 25<sup>th</sup> July. Applicants are invited from Years 4 – 13 and should show a keen interest in the visual arts. The Criw Celf programme includes workshops with professional artists, visits to artist studios and other exhibitions, a chance to exhibit your work and build your art portfolio. Most of our programme takes place in the Aberystwyth area, and transport is provided for visits to other locations.

A fee of £65 is payable which includes the costs of all activities, materials and visits. Free places are available to successful applicants who are eligible for free school meals. We encourage applications from young people from all backgrounds and are an equal opportunities project.

Interested? Contact Laura: lao8@aber.ac.uk  
01970 62 28 88

## DIWRNODAU BLASU AM DDIM CRIW CELF CEREDIGION FREE TASTER DAYS

### Blas Crochenwaith | Pottery Taster

Dydd Mawrth 27 Mai | Tuesday 27 May

10.30am – 12.30pm      1.30pm – 3.30pm  
7-10 oed / years      11-18 oed / years

Yn y Stiwdio Grochenwaith gyda'r tiwtoriaid Laura Hughes a Suzanne Lanchbury. Ysbrydolir gan waith Elif Aydogdu Agatekin ar themâu uwchgyllchu a chynaliadwyedd.

In the Pottery Studio with tutors Laura Hughes and Suzanne Lanchbury, inspired by the work of Elif Aydogdu Agatekin around themes of upcycling and sustainability.

### Blas Printio Sgrîn | Screen Printing Taster

Dydd Mercher 28 Mai | Wednesday 28 May

10.30am – 12.30pm      1.30pm – 3.30pm  
7-10 oed / years      11-18 oed / years

Yn y Stiwdio 2D gyda'r tiwtor Ruth Packham. Ysbrydolir gan themâu cynaliadwyedd, newid hinsawdd, natur a chadwraeth.

In the 2D Studio with tutor Ruth Packham, inspired by the themes of sustainability, climate change, nature and conservation.

## CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

# HAF WICKED WICED SUMMER

Prosiectau arbennig a gweithdai gwyliau  
Special projects and holiday workshops



DYSGU CREADIGOL  
CREATIVE LEARNING

Yn Dod yn Fuan | Coming Soon

## Dyddiau Bandstand | Bandstand days

30 Gorffennaf a 6 Awst 11am-4pm / 30 July and 6 August 11am-4pm

Ymunwch â thim Dysgu Creadigol Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn y Bandstand. Diwrnod o weithgareddau am ddim yn agored i bawb - croeso i chi ddod draw i weld beth sydd gan Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth i'w gynnig!

Join Aberystwyth Arts Centre's Creative Learning team at the Bandstand. A day of free activities open to everyone at the Bandstand - feel free to come along and see what Aberystwyth Arts Centre has to offer!



# Bwyd a Diod Food and Drink

Ar agor yn ddyddiol. Ewch i'r wefan am amseroedd agor | Open daily. Visit the website for opening times.

## Caffi | Café

Prydau poeth a salads ffres  
Freshly made hot meals and salads

Cacennau a coffi gwyech  
Great cakes and coffee

Cynyrch Cymreig  
Welsh produce

Opsynnau llysieuol, di-glwten a figan  
Vegetarian, gluten free and vegan options



*"Love eating at the cafe and looking at exhibitions."*

*"The ambiance of the Arts Centre, the production, the excellence of facilities, the quality of food and merchandise"*

## Bar y Theatr Theatre Bar

Dewis eang o winoedd, cwrw a gwirodydd  
A variety of wines, beers and spirits



## Siop | Shop

Ar agor yn ddyddiol. Ewch i'r gwefan am amseroedd | Open daily. Visit our website for times.

*"The shop in the Arts Centre is my go-to for all my friends' birthday gifts"*

*"Dwi'n caru'r siop, mae gymaint o bethe lleol a gwahanol yna"*

*"My kids physically drag me into the shop between dance lessons. We always find lots of quirky and unique treats for us all"*

*"Mae 'na rhywbeth i siwtio pob poned, hyd yn oed pocedi'r Cardis!"*



# Ein Cyfeillion | Our Friends

Hoffi Canolfan y Celfyddydau? Dewch yn Gyfaill i ni! Mae Cyfeillion Canolfan y Celfyddydau yn elusen gofrestrdedig sydd wedi'i chreu trwy ddymuniad cymuned Aberystwyth, i gydnabod Canolfan y Celfyddydau fel sefydliad o safon sy'n gwneud gwahaniaeth enfawr i'r gymuned leol a thu hwnt. Mae'n cefnogwyr yn cynnwys Taron Egerton, Jacob Ifan, Gillian Clarke a Shani Rhys James. Mae'r Cyfeillion yn cefnogi ein gwaith mewn sawl ffordd, gan gynnwys ymgyrchoedd ariannol a digwyddiadau hyrwyddo. Mae'r aelodaeth am ddim.

Are you a fan of the Arts Centre? Become a Friend! Friends of the Arts Centre is a registered charity and an organisation created from a desire by the community of Aberystwyth, to recognise the Arts Centre as a world-class organisation with a huge impact on the local community and beyond. Patrons include Taron Egerton, Jacob Ifan, Gillian Clarke, Shani Rhys James. Our Friends support our work in many ways including funding campaigns and promoted activity. Membership is free.

I ymuno | To join:  
[www.artscentrefriends.co.uk](http://www.artscentrefriends.co.uk)



## Ein Stwdios Creadigol Our Creative Studios

Mae ein stwdios creadigol yn hybu'r celfyddydau yng nghanolbarth Cymru, ac yn gartref i artistiaid, crefftwyr, busnesau ac asiantaethau creadigol.

Our creative studios boost the arts in Mid Wales, they house a mix of artists, craft workers, creative businesses and agencies.

Am wybodaeth neu i renti stiwdio  
For information or to rent a studio:  
Louise Amery [l2a@aber.ac.uk](mailto:l2a@aber.ac.uk)



“  
I always  
thoroughly  
enjoy my visits.



“  
Loads of space.  
Nice and cosy; feel  
very welcome.



“  
Mwynheais  
y cyfan.




“  
There is always  
a warm welcome  
from staff at the  
Arts Centre.




- AUDITORIUM SEATING
- BALCONY SEATING
- WHEELCHAIR SPACE
- DOOR

# Neuadd Fawr | Great Hall

# Gwybodaeth Information



3




1




2

4



# Theatr | Theatre

# Sinema | Cinema



## ARCHEBU TOCYNNAU

Gallwn gadw tocyntau a archebu yn eich enw am bedwar diwrnod. Ar ôl hynny, cânt eu rhyddhau i'w gwerthu. Os byddwch yn archebu tocyntau ar ddiwrnod y digwyddiad/ffilm, bydd yn rhaid i chi dalu'n llawn wrth archebu. Os byddwch wedi archebu tocyntau a heb dalu amdanynt erbyn diwrnod y digwyddiad/ffilm, cânt eu rhyddhau i'w gwerthu.

## AD-DALU A CHYFNEWID

Os na allwch ddod i berfformiad neu ffilm yr ydych wedi archebu tocyntau ar eu cyfer, gallwch anfon eich tocyntau yn ôl hyd at ddau ddiwrnod cyn y perfformiad ac fe anfonwn nodyn credyd llawn atoch. Neu gallwn newid eich tocyntau am berfformiad mwy cyfleus o'r un sioe neu ffilm. Os bydd y tocyntau i gyd wedi'u gwerthu, fe wnawn ein gorau i ailwerthu eich tocyntau i chi heb gost ychwanegol (ond ni allwn addo gwneud hyn). Nid yw hyn yn berthnasol i gyrtsiau.

## FFI ARCHEBU

Bydd tâl na ellir ei ad-dalu o £1.50 yn cael ei roi ar bob tocynt i dalu am gost gweinyddiaeth.

## PRISIAU GOSTYNGOL

Mae'r prisiau hyn ar gael i bobl 60+ sydd wedi ymddeol yn llwyr, pobl ifanc o dan 16 oed, myfyrwyr llawn amser, pobl ddi-waith, y sawl sy'n derbyn credydau treth gwaith a phobl anabl. Croesewir babis i sioeau lle cynigir gostyngiad ar y pris i blant.

## HWRDDYFODIAID

Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar gwsmeriaid eraill a pherfformwyr, gellir gofyn i bobl sy'n cyrraedd yn hwyr aros tan y bydd yn gyfleus cyn mynd i mewn i'r awditorium, yn ôl barn ein staff. O dan amgylchiadau eithriadol ac yn dibynnu ar y perfformiad, efallai ni fydd yn bosibl gadael hwyrdyffodiaid i mewn o gwbl. Felly gwnewch bob ymdrech os gwelwch yn dda i gyrraedd mewn da bryd. Ni roddir ad-daliad i gwsmeriaid sy'n methu rhan o'r perfformiad neu'r perfformiad cyfan am eu bod yn hwyr.

## GWARCHOD DATA

Mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, fel rhan o Brifysgol Aberystwyth sy'n gweithredu fel rheolwr data, yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwarchod Data a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol. Pan 'rydym yn prosesu'ch archeb / pryniad, gofynnir i chi am eich enw, cyfeiriad, e-bost a rhif ffôn. Mae hyn yn hanfodol er mwyn prosesu archebion lle na ddefnyddir arian parod. Efallai y gofynnir i chi hefyd gael eich hysbysu am ddiwyddiadau a gweithgareddau a gynhelir yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn y dyfodol. Rydym yn cadw gwybodaeth bersonol at bwrpasau gweinyddu, hysbysebu, marchnata a chodi arian. Yn dibynnu ar beth yr ydych wedi dweud wrthym, byddwn yn i) prosesu'ch gwybodaeth ar y sail eich bod yn ymgymryd â chytundeb pan 'rydych yn prynu tocyntau neu gynnyrch o'r Ganolfan neu pan 'rydych yn cyflwyno rhodd (Erthygl 6(1)(b) y Rheoliad). ii) prosesu'ch gwybodaeth ar y sail eich bod wedi rhoi caniatâd ar gyfer y prosesu hyn ac ar gyfer cyfathrebiadau cysylltiedig (Erthygl 6(1)(a) y Rheoliad) a iii) prosesu'ch gwybodaeth ar y sail ei bod er 'lles dyls' y Ganolfan i wneud hynny (Erthygl 6(1)(f) y Rheoliad) sef bod angen y wybodaeth ar y Ganolfan er mwyn prosesu trafodion ariannol ac eraill ac i gadw cofnod o'r rhain. Defnyddir eich gwybodaeth gan staff y Ganolfan yn unig. Defnyddir trydydd partion yn achlysurol i ddarparu cyfleusterau neu wasanaethau i helpu prosesu data. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth neu Swyddog Gwarchod Data'r Brifysgol ar infocompliance@aber.ac.uk

Sylwch: Ni chaniateir offer ffotograffeg na fideo mewn unrhyw berfformiad.

hynt

Mae celf a diwylliant i bawb. Ond os oes gennych nam neu ofyniad mynediad penodol, yn aml, gall mwynhau ymweliad i theatr neu ganolfan gelf fod yn fwy cymhleth na dim ond archebu tocyntau a dewis beth i'w wisgo. Mae Hynt yn gynllun cenedlaethol sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celf ar draws Cymru i wneud pethau'n glir ac yn gyson. Mae gan rai â cherdyn Hynt hawl i gael tocynt yn rhad am ddim i gynorthwydd personol neu ofaludd yn y Ganolfan y Celfyddydau a phob theatr a chanolfan gelf sy'n rhan o'r cynllun. Ewch i [www.hynt.co.uk](http://www.hynt.co.uk) neu [www.hynt.cym](http://www.hynt.cym) am wybodaeth ac arweiniad am y cynllun. Gallwch hefyd gael gwybod os gallwch chi neu'r person rydych yn gofalu amdano/i ymuno â'r cynllun a chwblhau ffurflen gais.

## CYFLEUSTERAU AR GYFER YMWELWYR ANABL

Os hoffech holi am y cyfleusterau cyn dod i Ganolfan y Celfyddydau, ffoniwch 01970 623232 | [artstaff@aber.ac.uk](mailto:artstaff@aber.ac.uk). Mae lle wedi'i gadw ger y brif fynedfa i yrwyr sy'n methu cerdded yn dda. Mae dau le yng nghefn y theatr hefyd, ar yr un gwastad â'r prif gyntedd. Gall pobl mewn cadeiriau olwyn fynd i holl awdatoria a gweithdai'r Ganolfan. Mae'r prif gyntedd a'r swyddfa docynnau ar yr un gwastad â'r tu allan a gellir mynd mewn lifft i gyntedd y theatr ac ar lifft grisiau i lawr i'r lefel is. Mae croeso i gwn tywys a chwn cymorth. Gellir mynd mewn cadair olwyn i'r toiledau ar bob lefel ag eithrio'r cyntedd isaf. Ceir dolenni clywed yn y Neuadd Fawr, y Theatr a'r Sinema.

## RESERVATIONS

Tickets reserved in your name can be held for four days, after which point they will be released for sale. Tickets cannot be reserved on the actual day of the event/screening, but must be paid for in full at time of booking. Any tickets not paid for by the day of the event/screening will be released.

## REFUNDS AND EXCHANGES

If for any reason you find you are unable to make a performance or screening you have booked seats for, your tickets can be returned up to two days in advance of a performance, and we will issue you with a full credit note. Alternatively we can exchange your tickets for a more suitable performance of the same show or film, or in the event of a full house we will do our best to re-sell your tickets for you at no additional charge (although this cannot be guaranteed). This does not apply to courses.

## BOOKING FEE

A £1.50 non-refundable charge is included within each ticket to cover the cost of administration.

## CONCESSIONS

The rate is available for: 60+ in full time retirement, under 16s, full time students, unemployed, those receiving working tax credits and disabled people. Babies are welcome at events that have a child's concession price as advertised.

## LATECOMERS

In order to minimise disturbance to other customers and performers, latecomers may be asked to wait until a convenient moment before being allowed into an auditorium, as judged by our staff. In exceptional circumstances and depending on the performance, we may be unable to admit latecomers at all. Please therefore make every effort to attend performances in plenty of time. No refund will be given for customers who miss all or parts of a performance due to lateness.

## DATA PROTECTION

Aberystwyth Arts Centre, as part of Aberystwyth University which acts in the capacity of data controller, conforms to the Data Protection Act and the General Data Protection Regulation. When processing your booking / purchase we will ask you for your name, address, email and telephone number. This is essential for processing all non-cash bookings. We may also ask you if you would like to be kept informed about forthcoming events and campaigns at Aberystwyth Arts Centre. We retain personal information for administration, advertising, marketing and fundraising purposes. Depending on what you have told us, we will be i) processing your information on the grounds that you have provided consent for this processing and for associated communications (Article 6(1)(a) of GDPR) ii) processing your information on the grounds that you entering into a contract when you buy tickets or products from the Arts Centre or when you make a donation (Article 6(1)(b) of GDPR) and iii) processing your information on the grounds that it is in the 'legitimate interests' of the Arts Centre to do this (Article 6(1) (f) of GDPR) in that the Arts Centre requires the information in order to process financial and other transactions and keep a record of these. Your information will only be accessed and used by Arts Centre staff. Third parties are occasionally used to provide facilities or services to help process data. For further information please contact Aberystwyth Arts Centre or the University Data Protection Officer at [infocompliance@aber.ac.uk](mailto:infocompliance@aber.ac.uk)

Please note: No photography or video equipment is allowed in any performance.

hynt

Art and culture is for everyone. But if you have an impairment or a specific access requirement, often enjoying a visit to a theatre or an arts centre can be more complicated than just booking tickets and choosing what to wear. Hynt is a national scheme that works with theatres and arts centres across Wales to make things clear and consistent. Hynt cardholders are entitled to a ticket free of charge for a personal assistant or carer at the Arts Centre and all the theatres and arts centres participating in the scheme. Visit [www.hynt.co.uk](http://www.hynt.co.uk) or [www.hynt.cym](http://www.hynt.cym) to find a range of information and guidance about the scheme. You can also find out whether you or the person you care for are eligible to join the scheme and complete an application form.

## ACCESS FOR DISABLED VISITORS

If you would like to check on any access issues before you visit the Arts Centre please call 01970 623232 | [artstaff@aber.ac.uk](mailto:artstaff@aber.ac.uk). Parking is reserved next to the main entrance approach for drivers with limited mobility. Two spaces are also available at the rear of the theatre, with level access into the main foyer. Wheelchair access is possible to all auditoria and workshop spaces in the venue. Access at ground level to main foyer and box office, by lift up to the theatre foyer and by stair lift down to the lower level. Guide dogs and assistance dogs are welcome. Toilet facilities are accessible on all levels except the lower foyer. Hearing loops are installed in the Great Hall, Theatre and Cinema.

“

I love the venue - always an enjoyable experience to visit whether for a show, concert, film or just for coffee and cake!



“

Profiad gwych - rydym yn ffodus iawn o'r ganolfan yn Aberystwyth



## Dyddiadur digwyddiadau byw | Live event diary

MAI   MAY				Tudalen   Page
2 - 3	Aberystwyth Arts Centre Lower Youth Theatre: <b>The Addams Family</b>	<b>7pm &amp; 2pm</b>	Th	3
9	<b>Baby Bird and Bee / Babi Aderyn a Gwenynen</b>	<b>11am, 1pm, 2:30pm</b>	St	3
10	<b>Milkshake! Live on Holiday</b>	<b>3pm</b>	Th	4
15	<b>Kroke</b>	<b>7:30pm</b>	Th	4
20 & 21	<b>Farm Boy</b>	<b>6pm</b>	Th	5
29	<b>Tom Gates on Stage</b>	<b>12:30pm &amp; 3:30pm</b>	Th	6
30	<b>Puffling Percy</b>	<b>11:30am - 2pm</b>	St	6
31	<b>Codi Cymu Rising</b>	<b>7:30pm</b>	Th	6
MEHEFIN - JUNE				
6	<b>Aerial Fitness Summer Show</b>	<b>7pm</b>	NF/GH	
6	<b>Cicio'r Bar</b>	<b>7:45pm</b>	St	7
12	<b>JOOLS HOLLAND and his Rhythm &amp; Blues Orchestra</b>	<b>7:30pm</b>	NF/GH	7
13	<b>Killer Queen</b>	<b>8pm</b>	NF/GH	7
13	<b>Queer Lit Quarterly</b>	<b>6pm</b>	St	8
13-14	Aberystwyth Arts Centre Stage School: <b>Finding Nemo Jr</b>	<b>7pm &amp; 2pm</b>	Th	8
18	<b>Sgleinio'r Lleuad</b>	<b>10am &amp; 1pm</b>	Th	9
20	The Community Theatre: <b>The Allotment and Other Produce</b>	<b>7.30pm</b>	Th	9
21	<b>Amazing Animals</b>	<b>1pm + 3pm</b>	Th	9
27 - 29	<b>International Ceramics Festival 2025</b>			10
GORFFENNAF - JULY				
2	<b>Ceredigion Schools Junior Prom</b>		NF/GH	
26 - 2 Awst / August	<b>Gŵyl Gerddoriaeth Ryngwladol &amp; Ysgol Haf   International Music Festival &amp; Summer School</b>			11
AWST - AUGUST				
9-31	Aberystwyth Arts Centre's Summer Production 2025 <b>The Wizard of Oz</b>	<b>7pm + Matinees</b>	Th	12
22	<b>National Youth Brass Band of Wales</b>	<b>7:30pm</b>	NF/GH	14

Th: Theatr / Theatre St: Stiwdio / Studio NF/GH: Neuadd Fawr / Great Hall S/C: Sinema / Cinema

“

Everything was superb. What a lucky town is Aberystwyth to have such a facility! If we lived nearby we would be there so often!

## Swyddfa Docynnau | Box Office

01970 62 32 32

aberystwythartscentre.co.uk

✉ artstaff@aber.ac.uk

@ABERYSTWYTH  
ARTS    

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Aberystwyth Arts Centre

Prifysgol Aberystwyth University

Penglais, Aberystwyth.

SY23 3DE

Am gopi o'r rhaglen mewn print mawr /  
For a copy of this programme in large print;  
01970 62 32 32 / artstaff@aber.ac.uk



Lleolir Canolfan y Celfyddydau yng nghanol campws Prifysgol Aberystwyth. Rydych yn troi i mewn i'r campws oddi ar yr A487 ar y ffordd i'r gogledd o ganol tref Aberystwyth. Ceir arwyddion clir. Gellir parcio ger y Ganolfan am ddim o 5pm ymlaen gyda'r nos a thrwy'r amser ar benwythnosau. Codir tâl bychan yn ystod y dydd.

The Arts Centre is situated at the heart of the campus of Aberystwyth University. The turning onto campus is from the A487 as you head North out of the main Aberystwyth town centre and is well signposted. Car parking is free from 5pm in the evenings and all weekends. During the day a small fee is charged.

Mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn adran o Brifysgol Aberystwyth.

Cydnabyddir Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth gan Gyngor Celfyddydau Cymru fel Canolfan Ranbarthol y Celfyddydau.

Mae Canolfan y Celfyddydau'n ddiolchgar i'r canlynol am eu cymorth ariannol: Cyngor Celfyddydau Cymru a phrifysgol Aberystwyth. Mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn aelod o Creu Cymru.

Aberystwyth Arts Centre is a department of Aberystwyth University.

Aberystwyth Arts Centre is recognised as a Regional Arts Centre by the Arts Council of Wales.

The Arts Centre gratefully thanks the following for their financial support: Arts Council Wales and Aberystwyth University. Aberystwyth Arts Centre is a member of Creu Cymru.



Creu  
Cymru



 Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN  
Y LOTERI  
LOTTERY FUNDED

